# Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth

rhwng

**Comisiwn y Senedd**

a

**Gweinidogion Cymru**

Dyddiad y cytundeb hwn yw 18 Chwefror 2026

**Partïon**

(1) Comisiwn y Senedd (**y Comisiwn**)

(2) Gweinidogion Cymru (**Gweinidogion Cymru**)

## 1. Cefndir

1.1 Y Comisiwn yw'r corff corfforaethol ar gyfer Senedd Cymru.

1.2 Mae Gweinidogion Cymru yn aelodau o Lywodraeth Cymru (**LlC**) sef llywodraeth ddatganoledig Cymru. Lle bo'n briodol, mae cyfeiriadau yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn at swyddogion yn cyfeirio at swyddogion Llywodraeth Cymru.

1.3 Y Comisiwn yw'r corff corfforaethol sy'n gyfrifol am redeg Senedd Ieuenctid Cymru (**SIC**) a sefydlwyd yn 2018.

1.4 Mae'r partïon, gyda chefnogaeth arweinwyr pob sefydliad, sef Llywydd y Comisiwn a Phrif Weinidog Cymru (un o Weinidogion Cymru), yn dymuno ffurfioli a chofnodi'r sail y byddant yn cydweithio â'i gilydd i gefnogi SIC. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn nodi'r canlynol:

- (a) y nodau a'r camau gweithredu cyffredin ar gyfer cefnogi SIC;
- (b) yr egwyddorion cydweithio; ac
- (c) y rolau a chyfrifoldebau priodol fydd gan y partïon mewn perthynas â SIC.

## 2. Nodau a chamau gweithredu cyffredin ar gyfer cefnogi SIC

2.1 Mae LlC a'r Comisiwn ill dau yn rhannu ymrwymiad cryf i bwysigrwydd gwrando ar leisiau plant a phobl ifanc a rhoi ystyriaeth ystyrlon i'w safbwyntiau. Mae Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn nodi hawl plant i gael dweud eu dweud mewn materion sy'n effeithio arnynt. Mae Erthygl 13 yn darparu ar gyfer mynediad at wybodaeth sy'n berthnasol i'w hawliau.

2.2 Bydd y partïon yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni'r nodau a'r strategaethau a rennir a nodir isod:

| Nod | Camau gweithredu |
|---|---|
| 1. Sicrhau bod rôl SIC mewn gwahanol feysydd polisi i'w gweld yn glir ac yn cael ei deall gan Weinidogion Cymru. | • Nodi pwynt cyswllt canolog o fewn LlC i sicrhau bod staff y Comisiwn yn gallu cyfathrebu ynglŷn â SIC gyda swyddogion cywir LlC gan gyfnewid gwybodaeth berthnasol ar adegau allweddol.<br>• Sefydlu cyswllt dilynol ynghylch SIC rhwng staff y Comisiwn a swyddogion polisi perthnasol LlC i ddarparu amserlenni a themâu sy'n dod i'r amlwg ar gyfer y tri phwyllgor SIC.<br>• Caniatáu i staff y Comisiwn drafod pynciau gyda thimau polisi arweiniol i lywio ffocws gwaith SIC.<br>• Archwilio cyfleoedd i ganfyddiadau Pwyllgor SIC gefnogi datblygiad polisi perthnasol sy'n gysylltiedig â'u tri maes blaenoriaeth.<br>• Pan fo o werth a phan fo capasiti yn caniatáu, gellir gwahodd swyddogion polisi LlC i fynychu cyfarfodydd pwyllgor SIC i ddarparu |

| | |
|---|---|
| | sesiynau briffio technegol a ffeithiol gyda'r nod o hysbysu aelodau'r pwyllgor am faterion sy'n ymwneud â'u gwaith.<br><br>• Staff y Comisiwn i rhoi gwybodaeth i Weinidogion Cymru a swyddogion LlC am rôl SIC, y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn a ffyrdd o weithio gyda staff y Comisiwn mewn perthynas â SIC. |
| 2. Datblygu perthynas waith sy'n barchus i'r ddwy ochr rhwng SIC a LlC gan arwain at gydweithredu ystyrlon at ddibenion y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn. | • Staff y Comisiwn i ddarparu copïau ymlaen llaw o adroddiadau dan embargo pwyllgor SIC sydd i Weinidogion Cymru a swyddogion LlC. Ni fydd y Comisiwn na Llywodraeth Cymru yn rhoi'r adroddiadau hynny yn y parth cyhoeddus cyn iddynt gael eu cyhoeddi.<br><br>• Staff y Comisiwn i wahodd y Gweinidog priodol i fynychu Cyfarfod Llawn SIC i gefnogi Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac ymrwymiad Gweinidogion Cymru i ymgysylltu'n ystyrlon â phlant a phobl ifanc. Mae LlC yn ymgymryd i geisio sicrhau presenoldeb y Gweinidog hwnnw neu’r Dirprwy priodol.<br><br>• Staff y Comisiwn i rannu meysydd cwestiynu posibl (fel y cytunwyd gan Aelodau o SIC) gyda LlC cyn Cyfarfodydd Llawn lle bo hynny’n bosibl ac yn briodol. |

| | |
|---|---|
| | • LlC i ymateb i adroddiadau ac argymhellion pwyllgorau SIC o fewn 30 diwrnod gwaith o'r adeg y bydd SIC yn ysgrifennu at swyddfa'r Gweinidog yn dilyn lansio'r adroddiad a'r Cyfarfod Llawn, er y gallai fod angen 40 diwrnod gwaith ar gyfer ymatebion sy'n torri ar draws gwahanol bortffolios Gweinidogion Cymru a bod angen cyfraniadau ar draws LlC. |
| 3. Sicrhau bod gohebiaeth rhwng SIC a LlC yn glir ac yn ddealladwy. Dylai Aelodau SIC allu deall sut mae eu gwaith wedi cael ei ystyried ac wedi cael dylanwad wrth ddatblygu polisïau LlC yn eu meysydd polisi blaenoriaeth. | • Ymatebion LlC i adroddiadau SIC i gael eu hysgrifennu mewn modd sy'n eu gwneud yn hygyrch i blant a phobl ifanc.<br><br>• Staff y Comisiwn i gyhoeddi ymatebion LlC i adroddiadau SIC ar wefan SIC. |

## 3. Egwyddorion cydweithio

3.1 Bydd y ddau barti yn cadw at ofynion statudol ac arfer gorau. Mae hyn yn cynnwys cydymffurfio â chyfreithiau a safonau cymwys sy'n ymwneud â chaffael, diogelu, diogelu data a mynediad at wybodaeth, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny.

3.2 Mae'r ddau barti yn cytuno na fydd Gweinidogion Cymru na swyddogion Llywodraeth Cymru yn cael unrhyw gyswllt uniongyrchol ag Aelodau o SIC ar unrhyw ffurf oni bai ei fod ym mhresenoldeb ffisegol neu rithwir aelod o staff y Comisiwn. Lle bydd unrhyw gyswllt rhithwir yn digwydd, rhaid bod modd adnabod pob un sy'n bresennol.

3.3 Ni fydd unrhyw ddata, ymchwil na dogfennau a rennir rhwng y ddau barti yn cynnwys unrhyw wybodaeth gyfrinachol.

3.4 Mae'r ddau barti yn cytuno, yn ystod eu cydweithrediad arferol o dan y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn, na fydd angen rhannu data personol

rhyngddynt yn gyffredinol. Fodd bynnag, cydnabyddir y gall fod amgylchiadau lle mae'n angenrheidiol i LlC brosesu rhywfaint o ddata personol sy'n ymwneud â'r cydweithrediad hwnnw, er enghraifft er mwyn ymgysylltu'n effeithiol ag Aelodau o SIC fel y cyfeirir ato yng nghymal 3.2. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd y ddau barti yn sicrhau bod prosesu data wedi'i gyfyngu i'r hyn sy'n angenrheidiol ac yn cael ei gynnal yn unol â chyfraith ac egwyddorion diogelu data.

## 4. Uwchgyfeirio

Os oes gan y naill barti neu'r llall unrhyw broblemau, pryderon neu gwynion ynghylch unrhyw fater yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn, bydd y parti hwnnw'n hysbysu'r parti arall a bydd y partïon wedyn yn ceisio datrys y mater drwy broses ymgynghori. Fel arfer, bydd swyddogion LlC a staff y Comisiwn yn gweithio ynghyd i ddatrys y mater. Os nad yw hyn yn bosibl, gellir cyfeirio'r mater drwy'r rhai sy'n gyfrifol am reoli'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn, hyd at ac yn cynnwys uwch swyddogion a staff o'r ddwy ochr. Os na chytunir ar ddatrysiad sy'n foddhaol i'r ddwy ochr o fewn cyfnod rhesymol o amser gan uwch swyddogion a staff o'r ddwy ochr, bydd y mater yn cael ei gyfeirio at Brif Weinidog Cymru ar ran LlC a Llywydd y Comisiwn a fydd wedyn yn gyfrifol ar y cyd am sicrhau datrysiad sy'n foddhaol i'r ddwy ochr.

## 5. Eiddo Deallusol

5.1 Mae'r partïon yn bwriadu y bydd unrhyw hawliau eiddo deallusol (i) a gyflenwir gan barti i'w defnyddio mewn perthynas â SIC yn parhau i fod yn eiddo i'r parti hwnnw; ac (ii) a grëwyd ar ran parti mewn perthynas â SIC yn eiddo i'r parti yr oedd ei gyflogai yn gyfrifol am eu creu.

5.2 Pan fo unrhyw hawl eiddo deallusol yn eiddo i'r naill barti neu'r llall yn unol â'r bwriad a nodir yng nghymalclause 5.1 uchod, bydd y parti hwnnw'n rhoi trwydded anghyfyngedig, ddi-freindal, anadferadwy i'r parti arall i ddefnyddio'r eiddo deallusol hwnnw at ddibenion SIC.

5.3 I'r graddau y gall unrhyw hawliau eiddo deallusol a ddarperir gan y naill barti neu'r llall i'w defnyddio mewn perthynas â SIC fod yn eiddo i drydydd parti, bydd y parti sy'n cyflenwi'r hawliau eiddo deallusol hynny yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl drwyddedau a chaniatâd priodol wedi'u cael er mwyn galluogi'r partïon i ddefnyddio'r hawliau eiddo deallusol trydydd parti hynny at ddibenion SIC.

## 6. Tymor a therfynu

6.1 Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn dechrau ar ddyddiad ei lofnodi gan y ddau barti, ac yn dod i ben ar ddiwedd naill ai pob tymor SIC neu bob tymor y Senedd, pa un bynnag sydd gyntaf. Bydd trefniadau ar gyfer adnewyddu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn ac unrhyw welliannau gofynnol ar gyfer cytundebau yn y dyfodol yn cael eu trafod ar yr adeg hon.

6.2 Y tu allan i'r amodau yn 6.1, gall y naill barti neu'r llall derfynu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn drwy roi o leiaf dri mis o rybudd yn ysgrifenedig i'r parti arall ar unrhyw adeg.

## 7. Amrywiad

Dim ond trwy gytundeb ysgrifenedig y partïon y gellir amrywio'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn, gan gynnwys yr Atodiadau.

## 8. Taliadau a rhwymedigaethau

8.1 Ac eithrio fel y darperir fel arall, bydd pob un o'r partïon yn ysgwyddo eu costau a'u treuliau eu hunain yr eir iddynt drwy gydymffurfio â'u rhwymedigaethau o dan y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn.

8.2 Bydd y ddau barti yn parhau i fod yn atebol am unrhyw golledion neu rwymedigaethau a achosir oherwydd eu gweithredoedd eu hunain neu eu gweithiwr ac nid yw'r naill barti neu'r llall yn bwriadu y bydd y parti arall yn atebol am unrhyw golled y mae'n ei ddioddef o ganlyniad i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn.

## 9. Statws

9.1 Ni fwriedir i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn fod yn gyfreithiol rwymol, ac ni fydd unrhyw rwymedigaethau cyfreithiol na hawliau cyfreithiol yn codi rhwng y partïon o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn. Fodd bynnag, mae'r partïon yn llofnodi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda'r bwriad o anrhydeddu eu holl rwymedigaethau.

9.2 Ni fwriedir i unrhyw beth yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn, ac ni ellir tybio ei fod, yn sefydlu unrhyw bartneriaeth neu fenter ar y cyd rhwng y partïon, dynodi'r naill barti neu'r llall fel asiant y parti arall, nac awdurdodi'r naill neu'r llall o'r partïon i wneud neu ymrwymo i unrhyw ymrwymiadau ar gyfer neu ar ran y parti arall.

## 10. Cyfraith lywodraethol ac awdurdodaeth

Bydd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn cael ei lywodraethu a'i ddehongli yn unol â chyfraith Cymru a Lloegr fel y mae'n gymwys yng Nghymru a, heb effeithio ar y weithdrefn uwchgyfeirio a nodir yng nghymal 4, mae pob parti yn cytuno i ildio i awdurdodaeth unigryw llysoedd Cymru a Lloegr.

Llofnodwyd ar gyfer ac ar ran Comisiwn y Senedd

Llofnod:

Enw: ELIN JONES AS

Swydd: Llywydd

Dyddiad: 18 Chwefror 2026

Llofnodwyd ar ran Gweinidogion Cymru

Llofnod:

Enw: ELUNED MORGAN MS

Swydd: Prif Weinidog Cymru

Dyddiad: 18 Chwefror 2026

PWYNTIAU CYSWLLT

**Y Comisiwn**

Enw: ………………………………….

Cyfeiriad swyddfa: ………………………………….

………………………………….

Rhif ffôn: ………………………………….

Cyfeiriad e-bost: ............................................

**Llywodraeth Cymru**

Enw: ............................................

Cyfeiriad swyddfa: ............................................

............................................

Rhif ffôn: ............................................

Cyfeiriad e-bost: ............................................